



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2010 Rhif 2839 (Cy.233)

2010 No. 2839 (W.233)

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU PLANT A PHOBL
IFANC, CYMRU**

**SOCIAL CARE, WALES
CHILDREN AND YOUNG
PERSONS, WALES**

Gorchymyn Eithriadau Gwarchod
Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010

The Child Minding and Day Care
Exceptions (Wales) Order 2010

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu eithriadau i'r hyn sy'n gynnwysedig yn y diffiniadau o "gwarchod plant" neu "gofal dydd i blant" at ddibenion Rhan 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ("Mesur 2010").

This Order sets out exceptions to what constitutes "child minding" or "day care for children" for the purposes of Part 2 of the Children and Families (Wales) Measure 2010 ("the 2010 Measure").

Mae adrannau 21 a 23 o Fesur 2010, yn eu trefn, yn gwneud yn ofynnol bod gwarchodwr plant a pherson sy'n darparu gofal dydd i blant yn cofrestru gyda Gweinidogion Cymru. Mae adran 19(2) a (3) yn diffinio "gwarchod plant" a "gofal dydd i blant". Mae adran 19(4) a (5) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru bennu amgylchiadau pan fydd person, y byddai ei weithgarwch fel arall yn dod o fewn un o'r diffiniadau, wedi ei eithrio o'r diffiniad hwnnw ac o ganlyniad na fydd yn ofynnol iddo gofrestru.

Section 21 and 23 of the 2010 Measure require, respectively, a child minder and a person who provides day care for children to register with the Welsh Ministers. Section 19(2) and (3) define "child minding" and "day care for children". Section 19(4) and (5) confer power on the Welsh Ministers to specify circumstances in which a person whose activity would otherwise fall within one of the definitions is excepted from it and who is not therefore required to register.

2010 Rhif 2839 (Cy.233)

2010 No. 2839 (W.233)

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU PLANT A PHOBL
IFANC, CYMRU**

**SOCIAL CARE WALES
CHILDREN AND YOUNG
PERSONS WALES**

Gorchymyn Eithriadau Gwarchod
Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010

The Child Minding and Day Care
Exceptions (Wales) Order 2010

Gwnaed 25 Tachwedd 2010
Yn dod i rym 1 Ebrill 2011

Made 25 November 2010
Coming into force 1 April 2011

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pŵer yn adran 19(4) a (5) ac adran 74(2) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(1).

The Welsh Ministers make the following order in exercise of the power in section 19(4) and (5) and section 74(2) of the Children and Families (Wales) Measure 2010(1).

RHAN 1

PART 1

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

Title, commencement, interpretation and application

1.–(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010, a daw i rym ar 1 Ebrill 2011.

1.–(1) The title of this Order is the Child Minding and Day Care Exceptions (Wales) Order 2010 and comes into force on 1 April 2011.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(2) This Order applies in relation to Wales.

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

(3) In this Order—

mae "mangre" ("*premises*") yn cynnwys unrhyw le ac unrhyw gerbyd;

"the 2010 Measure" ("*Mesur 2010*") means the Children and Families (Wales) Measure 2010;

ystyr "mangre ddomestig" ("*domestic premises*") yw unrhyw fangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd breifat;

"domestic premises" ("*mangre ddomestig*") means any premises which are used wholly or mainly as a private dwelling;

ystyr "Mesur 2010" ("*the 2010 Measure*") yw Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010;

"parent" ("*rhiant*") includes a person who is not a parent but who has parental responsibility for a child;

ystyr "perthynas" ("*relative*") yw taid, nain, brawd, chwaer, ewythr neu fodryb (naill ai o waed cyfan neu o hanner gwaed neu drwy briodas neu bartneriaeth sifil) neu lys-riant;

"premises" ("*mangre*") includes any area and any vehicle;

mae "rhiant" ("*parent*") yn cynnwys person nad yw'n rhiant, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn.

"relative" ("*perthynas*") means a grandparent, brother, sister, uncle or aunt (whether of the full blood or the half blood or by marriage or civil partnership) or step parent.

(4) Onid yw'n ymddangos bod bwriad i'r gwrthwyneb, mae geiriau yn y ffurf unigol yn cynnwys y ffurf luosog, a geiriau yn y ffurf luosog yn cynnwys y ffurf unigol.

RHAN 2

Eithriadau gwarchod plant

2. Nid yw person sy'n gofalu am blentyn o dan wyth oed mewn mangre ddomestig er mwyn gwobr yn gweithredu fel gwarchodwr plant at ddibenion Rhan 2 o Fesur 2010, yn yr amgylchiadau a ddisgrifir yn yr erthyglau canlynol, 3 i 7.

3.–(1) Nid yw person sy'n gofalu am blentyn yn gweithredu fel gwarchodwr plant os yw'r person hwnnw—

- (i) yn rhiant neu'n berthynas i'r plentyn; neu,
- (ii) yn rhiant maeth ar gyfer y plentyn.

(2) Yn yr erthygl hon, mae "rhiant maeth" ("foster parent") yn cynnwys person y lleolwyd plentyn gydag ef, gan awdurdod lleol neu sefydliad gwirfoddol, neu berson sy'n maethu plentyn yn breifat.

4. Nid yw person yn gweithredu fel gwarchodwr plant os nad yw'r cyfnod, neu gyfanswm y cyfnodau, yn ystod unrhyw un diwrnod pan fo'r person yn gofalu am blant yn fwy na dwy awr.

5.–(1) Pan fo person sy'n cael ei gyflogi –

- (a) (i) i ofalu am blentyn neu grŵp o sibliogiaid ar gyfer rhieni ("y rhieni cyntaf"), neu
- (ii) i ofalu am ail blentyn neu grŵp o sibliogiaid ar gyfer rhieni ("yr ail rieni") yn ychwanegol at y plant y gofelir amdanynt ar gyfer y rhieni cyntaf, a
- (b) yn gofalu am y plant o dan sylw yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng nghartref neu gartrefi'r rhieni cyntaf neu'r ail rieni,

nid yw'n gweithredu fel gwarchodwr plant.

(2) Yn yr erthygl hon—

- (a) ystyr "cael ei gyflogi" ("*employed*") yw cael ei gyflogi naill ai o dan gontract cyflogaeth neu o dan gontract ar gyfer gwasanaethau;
- (b) mae "rhiant" ("*parent*") yn cynnwys person sy'n berthynas i'r plentyn;
- (c) mae "grŵp o sibliogiaid" ("*sibling group*") yn cynnwys hanner-brodyr a hanner-chwiorydd.

6. Nid yw person yn gweithredu fel gwarchodwr plant os yw'r person hwnnw yn gofalu am y plentyn am gyfnod nad yw'n cychwyn tan ar ôl 6pm ar unrhyw un diwrnod ac sy'n dod i ben cyn 2am y diwrnod canlynol.

(4) Unless the contrary intention appears, words in the singular include the plural and words in the plural include the singular.

PART 2

Child minding exceptions

2. A person who looks after a child under the age of eight on domestic premises for reward does not act as a child minder for the purposes of Part 2 of the 2010 Measure in the circumstances described in the following articles 3 to 7.

3.–(1) A person looking after a child does not act as a child minder if that person—

- (i) is a parent, or a relative of the child; or,
- (ii) is a foster parent for the child.

(2) In this article "foster parent" ("rhiant maeth") includes a person with whom a child has been placed by a local authority or by a voluntary organisation or a person who fosters a child privately.

4. A person does not act as a child minder where the period, or the total of the periods, in any one day in which the person looks after children does not exceed two hours.

5.–(1) A person who is employed –

- (a) (i) to look after a child or sibling group for parents ("the first parents"), or
- (ii) to look after a second child or sibling group for parents ("the second parents") in addition to the children looked after for the first parents, and
- (b) who looks after the children concerned wholly or mainly in the first or second parents' own home or homes,

does not act as a child minder.

(2) In this article—

- (a) "employed" ("*cael ei gyflogi*") means employed either under a contract of employment or under a contract for services;
- (b) "parent" ("*rhiant*") includes a person who is a relative of the child;
- (c) "sibling group" ("*grŵp o sibliogiaid*") includes half-brothers and half-sisters.

6. A person does not act as a child minder where the person only begins to look after the child in the period between 6pm on any one day and finishes looking after the child by 2am the following day.

7.–(1) Nid yw person yn gweithredu fel gwarchodwr plant os yw'r person hwnnw yn gofalu am blentyn neu blant fel rhan o'r broses o fod yn gyfaill i rieni'r plentyn hwnnw neu'r plant hynny ac os na chaiff unrhyw daliad ei wneud am y gwasanaeth.

(2) Yn yr erthygl hon ystyr "taliad" ("*payment*") yw taliad o arian neu'r hyn sy'n werth arian ond nad yw'n cynnwys darparu nwyddau neu wasanaethau.

RHAN 3

Eithriadau gofal dydd i blant

8. Nid yw person, sy'n darparu gofal i blant o dan wyth oed mewn mangre annomestig, yn darparu gofal dydd at ddibenion Mesur 2010 yn yr amgylchiadau a ddisgrifir yn yr erthyglau canlynol, 9 i 15.

9. Nid yw person yn darparu gofal dydd pan ddarperir y gofal gan y person hwnnw yn y fangre o dan sylw ar nifer llai na 6 o ddiwrnodau mewn unrhyw flwyddyn galendr, a bod y person hwnnw wedi hysbysu Gweinidogion Cymru mewn ysgrifen cyn defnyddio'r fangre o dan sylw am y tro cyntaf yn y flwyddyn honno.

10. Nid yw person yn darparu gofal dydd os nad yw'r cyfnod neu gyfanswm y cyfnodau pan ofelir am blant mewn mangre, yn ystod unrhyw un diwrnod, yn hwy na dwy awr.

11. Nid yw person yn darparu gofal dydd os darperir y gofal i blentyn y gofelir amdano mewn cartref plant y cofrestrwyd person mewn perthynas ag ef o dan Ran 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000.

12. Nid yw person yn darparu gofal dydd pan ddarperir y gofal i blentyn a letyir mewn—

- (a) cartref gofal,
- (b) ysbyty fel claf, neu
- (c) canolfan breswyl i deuluoedd,

yn rhan o weithgarwch y sefydliad o dan sylw, naill ai gan ddarparwr y sefydliad yn uniongyrchol neu gan berson a gyflogir ar ran y darparwr.

13.–(1) Nid yw person yn darparu gofal dydd pan ddarperir y gofal mewn gwesty, tŷ llety neu sefydliad cyffelyb arall, i blentyn sy'n aros yn y sefydliad hwnnw—

- (a) pan fo'r ddarpariaeth yn digwydd yn unig rhwng 6 pm a 2 am; a
- (b) pan na fo'r person, neu yn ôl y digwydd, unrhyw unigolyn sy'n cael ei gyflogi ganddo, sy'n darparu'r gofal yn gwneud hynny i fwy na dau gleient gwahanol ar yr un pryd.

7.–(1) A person does not act as a child minder where the person looks after a child or children in the course of friendship with the parents of that child or children and where no payment is made for the service.

(2) In this article "payment" ("*taliad*") means a payment of money or money's worth but does not include the provision of goods or services.

PART 3

Day care for children exceptions

8. A person who provides care for children under the age of eight on premises other than domestic premises is not providing day care for the purposes of the 2010 Measure in the circumstances set out in the following articles 9 to 15.

9. A person does not provide day care where the care is provided by that person on the premises in question on fewer than 6 days in any calendar year and the person has notified the Welsh Ministers in writing before the first occasion on which the premises concerned are used in that year.

10. A person does not provide day care where the period or the total of the periods in any one day on which children are cared for on premises does not exceed two hours.

11. A person does not provide day care where the care is provided to a child cared for in a children's home in respect of which a person is registered under Part 2 of the Care Standards Act 2000.

12. A person does not provide day care where the care is provided to a child accommodated in—

- (a) a care home,
- (b) a hospital as a patient,
- (c) a residential family centre, or

as part of the activity of the establishment in question, whether by the provider of the establishment directly or by a person employed on the provider's behalf.

13.–(1) A person does not provide day care where the care is provided at a hotel, guest house or other similar establishment for a child staying in that establishment where—

- (a) the provision only takes place between 6 pm and 2 am; and
- (b) the person or, as the case may be, any individual employed by the person, who is providing the care is doing so for no more than two different clients at the same time.

(2) At ddibenion is-baragraff (1)(b), ystyr "cleient" ("*client*") yw person y darperir gofal i blentyn ar ei gais (neu bersonau, ar eu cais ar y cyd).

14.–(1) Nid yw person yn darparu gofal dydd pan ddarperir y gofal i blant mewn ysgol, a'r ddarpariaeth o ofal yn digwydd yn achlysurol mewn cysylltiad â darparu addysg.

- (2) yn yr erthygl hon ystyr "ysgol" ("*school*") yw—
- (i) ysgol a gynhelir o fewn yr ystyr a roddir i "maintained school" yn adran 39 o Ddeddf Addysg 2002(1);
 - (ii) ysgol annibynnol; neu
 - (iii) ysgol a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 342 o Ddeddf Addysg 1996(2) (cymeradwyo ysgolion arbennig nas cynhelir).

15.–(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), nid yw person yn darparu gofal dydd pan fo'n hyfforddi neu'n dysgu mewn gweithgaredd o fath a restrir ym mharagraff (3) ac mae unrhyw ofal a ddarperir iddo yn digwydd yn achlysurol mewn cysylltiad â'r hyfforddi neu'r dysgu hwnnw.

- (2) Nid yw'r eithriad yn yr erthygl hon yn gymwys –
- (a) os yw'r plant islaw 5 oed ac yn bresennol am fwy na phedair awr y dydd; neu—
 - (b) os yw'r person yn cynnig hyfforddi neu ddysgu mewn mwy na dau o'r mathau o weithgaredd a restrir ym mharagraff (3).
- (3) Y mathau o weithgaredd yw—
- (a) chwaraeon;
 - (b) celfyddydau perfformio;
 - (c) celfyddydau a chrefftau;
 - (ch) cymorth ar gyfer astudiaethau ysgol neu waith cartref;
 - (d) astudiaethau crefyddol neu ddiwylliannol.

(2) For the purposes of sub-paragraph (1)(b), a "client" ("*cleient*") is a person at whose request (or persons at whose joint request) care is provided for a child.

14.–(1) A person does not provide day care where care is provided to children at a school and the provision of care is incidental to the provision of education.

- (2) In this article "school" ("*ysgol*") means—
- (i) a maintained school within the meaning of section 39 of the Education Act 2002(1);
 - (ii) an independent school; or
 - (iii) a school approved by the Welsh Ministers under s.342 of the Education Act 1996(2) (approval of non-maintained special schools).

15.–(1) Subject to paragraph (2), a person does not provide day care where the person provides coaching or tuition in an activity of a type listed in paragraph (3) and any care provided to them is incidental to the provision of that coaching or tuition.

- (2) The exception in this article does not apply if –
- (a) the children are below the age of 5 and attend for longer than four hours per day; or,
 - (b) the person offers coaching or tuition in more than two of the types of activity listed in paragraph (3).
- (3) The types of activity are –
- (a) sport;
 - (b) performing arts;
 - (c) arts and crafts;
 - (d) school study or homework support;
 - (e) religious or cultural study.

Huw Lewis

Y Dirprwy Weinidog dros Blant o dan awdurdod y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, ar ran Gweinidogion Cymru

Deputy Minister for Children Under authority of the Minister for Children Education and Lifelong Learning, on behalf of the Welsh Ministers

25 Tachwedd 2010

25 November 2010

© Hawlfraint y Goron 2010

© Crown copyright 2010

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(1) 2002 p.32.

(2) 1996 p.56.

(1) 2002 c.32.

(2) 1996 c.56.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2010 Rhif 2829 (Cy.233)

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU PLANT A PHOBL
IFANC, CYMRU**

Gorchymyn Eithriadau Gwarchod
Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2010 No. 2839 (W.233)

**SOCIAL CARE, WALES
CHILDREN AND YOUNG
PERSONS, WALES**

The Child Minding and Day Care
Exceptions (Wales) Order 2010